



## RHONDDA CYNON TAF

### PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 17 Hydref 2019 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

### Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:

Y Cyngorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Caple	Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd P Jarman	Y Cyngorydd D Grehan
Y Cyngorydd G Hughes	Y Cyngorydd J Williams
Y Cyngorydd S Powell	Y Cyngorydd W Owen
Y Cyngorydd R Yeo	Y Cyngorydd D Williams

### Swyddogion oedd yn bresennol

Mr J Bailey, Rheolwr Gwasanaethau Datblygu  
Mr S Zeinali, Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd  
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol

### Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd R Bevan

#### 118 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

- Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol W. Owen mewn perthynas ag Eitem 7, Cais 19/0841 - Adeiladu caban pren i ffurfio Siop Dim Gwastraff, Boar's Head, Tyla Garw, Pont-y-clun. "Fi yw perchennog y Boar's Head a fi yw'r ymgeisydd. Mae fy niddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu a bydda i'n gadael y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei thrafod. "
- Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Powell mewn perthynas ag Eitem 8, 19/0877 - Newid defnydd o annedd i Dŷ Amlfeddiannaeth (ailgyflwyno), 109 Newbridge Road, Llantrisant, Pont-y-clun. "Rwy'n Gadeirydd Cyngor Cymuned Llantrisant a bŵm yn cadeirio'r cyfarfod lle codwyd y gwrthwynebiad. Mae fy niddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu a bydda i'n gadael y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei thrafod. "

#### 119 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar

faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**120 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**121 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 19 Medi, 2019 yn rhai cywir.

**122 CAIS: 18/1409**

**Cais cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl a gwaith cysylltiedig (derbyniwyd cynllun safle diwygiedig ar 12/02/19 a'r disgrifiad diwygiedig ar 13/06/19), tir i'r de o Cross Street a Trafalgar Terrace, Ystrad, Pentre.**

Nododd y Pwyllgor nad oedd Mr Steffan Harries (Asiant) a oedd wedi gofyn i annerch yr Aelodau ar y cais yn dymuno gwneud hynny.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar gwblhau Cytundeb Adran 106. Bydd y cytundeb Adran 106 yn ei gwneud yn ofynnol bod 10% o'r unedau'n dai fforddiadwy, a bod cytundeb i ddarparu Cynllun Hyfforddi Sgiliau Cyflogadwyedd yn unol â Chanllawiau Cynllunio Strategol y Cyngor.

**123 CAIS: 19/0482**

**Trosi adeilad masnachol yn 5 fflat dwy ystafell wely. Yn cynnwys dymchwel yr estyniad presennol yn y cefn ac adeiladu estyniad newydd a thair dormer yn y cefn (derbyniwyd disgrifiad diwygiedig a chynlluniau diwygiedig ar 12/06/19) (derbyniwyd Arolwg Ystlumod 01/08/19) 22-24 Penrhiwceiber Road, Penrhiw-ceibr, Aberpennar.**

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais uchod i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**124 CAIS: 19/0841**

**Adeiladu caban pren i ffurfio Siop Dim Gwastraff, Boar's Head, Tyla Garw,**

## **Pont-y-clun.**

**(Nodwch:** Ar ôl datgan buddiant yn y cais uchod (Cofnod Rhif 118), gadawodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol W. Owen y cyfarfod ar gyfer yr eitem yma.)

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais uchod i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**(Nodwch:** Yn dilyn y penderfyniad, dychwelodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol W. Owen i'r cyfarfod.)

## **125 CAIS: 19/0877**

**Newid defnydd o anedd i Dŷ Amlfeddiannaeth (ailgyflwyno), 109 Newbridge Road, Llantrisant, Pont-y-clun.**

**(Nodwch:** Ar ôl datgan buddiant yn y cais uchod (Cofnod Rhif 118), gadawodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Powell y cyfarfod ar gyfer yr eitem yma.)

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais uchod i'r Pwyllgor. Ar ôl trafodaeth hir ynglŷn â'r cynnig, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**(Nodwch:** Bu cynnig i wrthod y cais yn erbyn argymhelliad swyddog, oherwydd pryderon o ran diffyg darpariaeth barcio. Ni fu'r cynnig yn llwyddiannus.)

**(Nodwch:** Yn dilyn y penderfyniad, dychwelodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Powell i'r cyfarfod)

## **126 CAIS: 19/0914**

**Adeiladu gweithdy newydd yn lle'r un a gafodd ei ddinistrio â tân (Dosbarth B2), Oakwood Furniture, Old Parish Road, Ynys-y-bŵl, Pontypridd.**

Amlinellodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu gynnwys llythyr 'hwyr' oddi wrth Clerc Cyngor Cymuned Ynys-y-bŵl a Choed y Cwm. Roedd y llythyr yn rhoi gwybod nad unrhyw bryderon wedi'u codi gan y Cyngor Cymuned.

Parhaodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu trwy gyflwyno'r cais uchod i'r Pwyllgor. **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

## **127 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Penderfyniadau Dirprwyedig o ran Cymeradwyaethau a Gwrthodiadau gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau

Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 19 Medi 2019 a 4 Hydref, 2019.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.40 pm**

**Y Cynghorydd S Rees  
Cadeirydd.**